PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD

DYDD IAU, 31 AWST 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Goodway(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Berman, Burke-Davies, Carter, Keith Jones, Jones-Pritchard, Kelloway, McKerlich a/ac Wong |

1 : CADEIRYDD

Nodwyd i’r Cyngor yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2017 ethol y Cynghorydd Goodway fel Cadeirydd y Pwyllgor y Cyfansoddiad ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2017/18.

2 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd i’r Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 25 Mai 2017 gytuno ar yr aelodaeth a’r Cylch Gorchwyl canlynol: -

**Aelodaeth**

Y Cynghorwyr Jennifer Burke-Davies, Rodney Berman, Joe Carter, Saeed Ebrahim, Susan Goddard, Russell Goodway, Keith Jones, Mike Jones-Pritchard, Kathryn Kelloway, Neil McEvoy, Rod McKerlich a Peter Wong.

**Cylch Gorchwyl**

I adolygu Cyfansoddiad y Cyngor ac i argymell unrhyw newid i’r Cyngor a/neu’r Cabinet, ac eithrio y bydd gan y Pwyllgor (yn amodol ar gyngor y Swyddog Monitro) yr awdurdod i wneud y newidiadau canlynol ar ran y Cyngor:-

(a) Drafftio gwelliannau i wella eglurder a chael gwared ag anghysonderau.

(b) Diweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a materion cofnodi.

(c) Diwygiadau i Reolau Gweithdrefnol Ariannol, Contractau a Thir (yn amodol ar gyrchu cyngor gan y Swyddog S.151).

3 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ebrahim.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

5 : COFNODION

Nodwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y weinyddiaeth flaenorol a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2017.

## 6 : DISGRIFIADAU O SWYDD AELODAU - HYRWYDDWYR AELODAU

Dywedwyd wrth yr Aelodau dod disgrifiadau rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor ond nad ydynt wedi'u cynnwyd yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd

Galluogodd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor ystyried ymgorffori disgrifiadau rôl ar gyfer Hyrwyddwyr Aelod yng Nghyfansoddiad y Cyngor, fel y argymhellwyd gan y Cabinet; ac ystyried a ddylid cynnwys disgrifiadau rôl cymeradwy eraill ar gyfer unrhyw rolau Aelod eraill.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at Hyrwyddwyr Aelod ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi siarad â'r Arweinydd am faterion megis Hyrwyddwr Aelod ac a ddylai Aelodau unigol wneud penderfyniadau. Mae sgyrsiau pellach rhwng y Cadeirydd ac Arweinwyr a Chwipiau wedi'u cynnal a chredwyd, yn lle hyn, y gallai grŵp pob plaid gael ei sefydlu, fyddai arno Cadeirydd wedi'i ethol, ac a fyddai'n trafod materion â blaenoriaeth; byddai angen i'r grŵp gyfarfod o leiaf tri gwaith y flwyddyn, bod yn ddangosadwy a chofrestredig ac yn llunio adroddiad Blynyddol i'r Cyngor. Cafeat arall oedd y byddai'r grŵp yn gwasanaethu ei hunain, ni fyddai Swyddogion yn ei wasanaethu.

Credodd y Cadeirydd, pe bai'r Pwyllgor yn fodlon, y gellir datblygu adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: cyfarwyddo Swyddogion i lunio adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor y Cyfansoddiad gyda chynigion ar gyfer sefydliad grŵp pob plaid i edrych ar fuddiannau ym mlaenoriaethau gwasanaeth a chorfforaethol y Cyngor.

## 7 : CYNGOR 25 MAI 2017 : CYFEIRIO YN ÔL I BWYLLGOR Y CYFANSODDIAD Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I REOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR

Dywedwyd wrth yr Aelodau i'r Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol ar 25 Mai 2017 dderbyn argymhellion y Pwyllgor y Cyfansoddiad 2 Mawrth 2017 ar y diwygiadau arfaethedig i Reolau Gweithdrefn y Cyngor. Cyfeiriwyd yr adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor y Cyfansoddiad yn unol â Rheol 25 (a) (iv) Gweithdrefn y Cyngor i alluogi i Bwyllgorau a Chynghorwyr newydd wneud penderfyniad ar y newidiadau arfaethedig.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi trafod hy gyda'r Arweinydd ac wedi cael cyfarfod dilynol gydag Arweinwyr a Chwipiau. Mae dadl wedi bod bod angen gwneud newidiadau; roedd awydd am strwythur newydd yn y Cyngor a lleihau rhan y Weithrediaeth a rhoi rhan mwy i ôl-feincwyr i lywio penderfyniadau oedd un o'r ystyriaethau.

Ystyriwyd y dylai Grwpiau Plaid gyfarfod i ddatblygu consensws ar newidiadau. Byddai consensws cynnar yn golygu rhai newidiadau'n cael eu gweithredu'r gynnar a chredodd y Cadeirydd y dylid gweithredu'r holl newidiadau erbyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Ebrill 2018.

Trafododd yr Aelodau'r cynigion amrywiol megis nifer y cyfarfodydd y flwyddyn, amser dechrau cyfarfodydd, ail gwestiynau ategol, nifer y cwestiynau ar lafar, Deisebau, trefnu rhestri o siaradwyr cyn y cyfarfod, siaradwyr allanol ac a allai'r Cyngor alw materion i mewn ac ati.

Credodd yr Aelodau y gallai fod yn gyfle i drafod y mater ynglŷn â'r 5 pwyllgor craffu ar y cyd â newidiadau eraill i'w gwneud eto.

Dywedodd y Cadeirydd fod parodrwydd ar hyn o bryd i roi pŵer i bobl y tu allan i'r Weithrediaeth; gan roi mwy o le ar Agenda'r Cyngor ar gyfer y plaid lleiaf a'r sylwadau lleiaf o bobl yn y plaid lleiaf, i ddylanwadu ar gyfeiriad y Cyngor.

Dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol y gellir trefnu cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad ychwanegol ym mis Hydref a chyfarfod gydag Arweinwyr a Chwipiau cyn hynny.  Byddai amserlenni ar gyfer unrhyw newidiadau'n dibynnu ar pa mor radical oedd y newidiadau y gwnaethpwyd cais amdanynt.

Dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, o ran Galw i Mewn, fod angen i Graffu ystyried y rhain; dan Ddeddf Llywodraeth Leol, ceir swyddogaethau ar wahân, gallai'r Cyngor ddadlau'r pwnc yn ymwneud â Galw i Mewn ond byddai'n rhaid i graffu wneud y penderfyniad.

O ran y 5 pwyllgor craffu, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai angen dod o hyd i adnodd i gadw'r pumed pwyllgor gan fod arian cyfredol ond wedi'i ddyrannu am flwyddyn.  Byddai angen i'r Gwasanaethau Democrataidd a Phwyllgorau'r Cyfansoddiad argymell hyn i'r Cyngor Llawn i gytuno ar yr adnodd.

Ystyriodd yr Aelodau, ar gyfer cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad ym mis Hydref, y byddai'n ddefnyddiol gweld Agendau Cyngor Dinasoedd Craidd, sut mae eu cyfarfodydd Cyngor yn cael eu trefnu ac arfer gorau.

PENDERFYNWYD: Pennu dyddiad ar gyfer cyfarfod ym mis Hydref i Bwyllgor y Cyfansoddiad, sefydlu cyfarfod gydag Arweinwyr a chwipiau, edrych ar arfer gorau yn ninasoedd craidd a llunio dogfen ymgynghori i grwpiau plaid ei ystyried cyn cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad ym mis Hydref.

8 : AMLDER CYFARFODYDD A CHYNLLUN GWAITH

Trafododd yr Aelodau gynnal cyfarfodydd Pwyllgor y Cyfansoddiad yn fwy aml dros y misoedd nesaf i ysgogi newidiadau i Reolau Gweithdrefn y Cyngor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau yr hoffai Cadeiryddion Craffu i Bwyllgor y Cyfansoddiad edrych ar faterion megis Galw i Mewn ac a ganiateir ceisiadau Galw i Mewn neu beidio; gallai hyn fod yn broblem ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm